YMATEBION I'R DDOGFEN YMGYNGHORI *GWEITHLEOEDD UCHEL EU PERFFORMIAD – HYSBYSU AC YMGYNGHORI Â CHYFLOGEION*

Trosolwg

1. Cafodd dogfen ymgynghori y DTI, *Gweithleoedd Uchel eu Perfformiad – Hysbysu ac Ymgynghori â Chyflogeion*, ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2003. Roedd yn cynnwys rheoliadau drafft i weithredu cyfarwyddeb y CE ar hysbysu ac ymgynghori â chyflogeion ar sail fframwaith a fyddai'n cael ei gytuno rhwng y TUC a'r CBI. Gofynnwyd am ymatebion i nifer o gwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar feysydd lle'r oedd materion heb eu datrys. Yn gyfochrog â hynny, cafwyd ail gylch o sioeau ffordd rhanbarthol i drafod y materion heb eu datrys a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

2. Cafwyd dros gant o ymatebion i'r ddogfen ymgynghori ac unwaith eto roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth mawr o fuddiannau, gyda chwarter o fusnesau unigol, a chwarter o gyrff cynrychioli. Cafwyd 14 o ymatebion gan undebau a daeth y gweddill oddi wrth gyrff adnoddau dynol, academyddion, cyfreithwyr, y sector cyhoeddus ac elusennau. Daeth cymysgedd tebyg o gynrychiolwyr i'r sioeau ffordd hefyd. Mae rhestr lawn o'r rhai a ymatebodd i'r ddogfen ymgynghori ac a ddaeth i'r sioeau ffordd ar gael yn yr atodiad.

3. Cafwyd cefnogaeth fras ymhlith y rhai a ymatebodd i egwyddorion cyffredinol y ddeddfwriaeth, er bod rhai pryderon am sut y gallai weithio yn ymarferol. Serch hynny, roedd llawer yn ei gweld fel cyfle posibl i adolygu ac adnewyddu'r trefniadau sydd ganddyn nhw eisoes, neu i sefydlu trefniadau newydd am y tro cyntaf.

4. Isod, ceir amlinelliad o'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori y llynedd, a chrynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth i'r prif faterion a godwyd.

Pa fath o ganllawiau ynghylch y ddeddfwriaeth a fyddai o gymorth ichi? Ble byddech chi'n disgwyl sicrhau cyngor a chanllawiau am roi hysbysu ac ymgynghori ar waith?

5. Ymatebodd bron y cyfan o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw i'r cwestiwn yma. Gofynnodd llawer am ganllawiau clir a chryno i'w helpu i sefydlu gweithdrefnau hysbysu ac ymgynghori a gofynnodd rhai am ganllawiau cam-wrth-gam. Roedd rhai am gael astudiaethau achos ynghylch arferion da, neu senarios, yn ogystal â diagramau, siartiau llif ac efallai ffurflenni safonol i seilio cytundebau arnyn nhw. Er hynny, roedd rhai eraill yn pryderu y gallai canllawiau droi yn safon *de facto*, ac yn ymgadw rhag unrhyw beth a allai gael ei ystyried yn orfodol – roedden nhw am gael amlinelliad byr o'r ddeddfwriaeth a chysylltiadau

â rhagor o fanylion. Cydnabuwyd y gallai fod ar rai sefydliadau angen mwy o ganllawiau a gwybodaeth na'i gilydd, yn enwedig gwmnïau bach nad oedd ganddyn nhw fawr o allu ym maes adnoddau dynol.

6. Y pwnc trafod pwysicaf un i lawer o'r ymatebwyr oedd cael cytundeb gweithle cyn i'r Rheoliadau a'r gofynion yn y ddeddfwriaeth ynghylch cytundebau "sydd eisoes yn bodoli" ddod i rym. Credid y dylai canllawiau gael eu darparu cyn gynted â phosibl, cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, ynghylch sut i greu cytundebau o'r fath a sut i'w dilysu.

7. O ran testun y Rheoliadau eu hunain, gofynnwyd am ddiffiniadau o'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio, er enghraifft, ar y gwahaniaeth rhwng sefydliad ac ymgymeriad, ystyr "ymgynghori", y diffiniad o "cyflogai", a beth yw ystyr ymadroddion fel "newidiadau sylweddol yn nhrefn y gwaith neu gysylltiadau contractiol", a'r "lefel reoli berthnasol".

8. Roedd y materion eraill lle teimlid bod angen rhagor o eglurhad yn cynnwys: cyfrifo'r trothwy o 10% ar gyfer ceisiadau gan gyflogeion; nifer y cyflogeion yr oedd ei angen er mwyn cyflwyno cwyn am unrhyw fater; sut y byddai cyflogeion yn cymeradwyo cytundeb gwirfoddol; amlder cyfarfodydd a hawliau cyflogeion i ofyn amdanyn nhw; sut y gellid rheoli'r gorgyffwrdd rhwng y Rheoliadau a rhwymedigaethau statudol eraill i ymgynghori, er enghraifft ynghylch afreidedd cyfun; a'r ymdriniaeth â rheolau'r gyfnewidfa stoc ar wybodaeth gyfrinachol.

9. Yn ogystal, gofynnwyd am ganllawiau ar nifer o faterion ymarferol, gan gynnwys: sut i drefnu pleidlais yn y gweithle, sut i annog cynrychiolwyr posibl i'w cynnig eu hunain, a sut i sicrhau'r ymateb gorau posibl i bleidlais; yr hyn a ddisgwylid oddi wrth y cynrychiolwyr ar ôl eu hethol; yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai'n rhaid i 'benderfyniad yn y fan a'r lle' gael ei wneud gan y cyflogwr; sut i weithio gyda nifer o undebau llafur neu wrth eu hochr pan fyddai mwy nag un wedi'u cydnabod; ac awgrymiadau am y dulliau a allai gael eu defnyddio i hysbysu ac ymgynghori â chyflogeion.

10. O ran y cwestiwn pwy ddylai ddarparu gwybodaeth a chanllawiau ac ym mha ffurf, yn ogystal â'r DTI ei hun, roedd ACAS yn ddewis poblogaidd ar gyfer darparu canllawiau, gan ei fod yn cael ei weld fel sefydliad adnabyddus sy'n ennyn parch. Awgrymodd rhai ymatebwyr sefydliadau eraill, megis y TUC, y CBI, a'r CIPD. Roedd eraill yn teimlo y dylai'r CAC ddarparu ei ganllawiau ei hun ynghylch y rhan y byddai'n ei chwarae i ddatrys anghydfodau.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

11. Mae'r DTI wedi drafftio canllawiau ynghylch y Rheoliadau y bwriedir iddyn nhw fod yn esboniad ar y gyfraith, ac y mae'n eu cyhoeddi at

ddibenion ymgynghori. I geisio bodloni'r ddwy alwad am rywbeth cymharol fyr, ond hefyd rhywbeth a fydd yn rhoi digon o wybodaeth i fod yn wirioneddol ddefnyddiol, mae'r canllawiau ar ffurf prif adran gyda chysylltiadau â chanllawiau manylach ar bwyntiau penodol, er mwyn i'r darllenwyr gael dealltwriaeth sylfaenol o'r ddeddfwriaeth yn weddol hawdd, heb fod angen edrych ar y canllawiau manylach oni bai bod y pwyntiau o ddiddordeb iddyn nhw. Mae'r canllawiau'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â'r gofynion ynghylch cytundebau sydd eisoes yn bodoli, trefniadau ar gyfer grwpiau o ymgymeriadau neu ar gyfer trefniadau gwahanol mewn sefydliadau gwahanol, barn y DTI am ystyr termau megis "ymgymeriad", "ymgynghori", "newidiadau sylweddol yn nhrefn y gwaith neu i gysylltiadau contractiol", a "lefel reoli berthnasol", ac amlder am amseru gwybodaeth ac ymgynghori. Hefyd, bydd ACAS yn cyhoeddi canllawiau ar arferion da a fydd yn hoelio sylw ar sut i sefydlu a gweithredu trefniadau effeithiol ar gyfer hysbysu ac ymgynghori.

Diwygiadau i'r Rheoliadau y mae eu hangen er mwyn caniatáu cytundebau sy'n cynnwys grwpiau o ymgymeriadau neu sefydliadau gwahanol

12. Cafwyd mesur helaeth o gonsensws bod angen rhoi digon o le i drefniadau hysbysu ac ymgynghori gael eu cytuno ar lefel heblaw'r ymgymeriad unigol ac y byddai'n briodol creu newidiadau penodol yn y ffordd y mae'r Rheoliadau wedi'u drafftio er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol.

13. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y dylai'r cyflogwr gael hyblygrwydd i ddewis a ddylai trefniadau hysbysu ac ymgynghori weithredu ar lefel yr ymgymeriad, y sefydliad neu'r grwp, gyda'r CAC yn datrys unrhyw anghydfodau ynghylch y materion hyn. Ar y llaw arall, dadleuai ymatebwyr eraill nad oedd hyn yn rhywbeth y dylid ei adael i'r cyflogwr benderfynu arno. Ar ôl i'r glicied gael ei thynnu mewn un ymgymeriad, (hynny yw, ar ôl i gais gan y cyflogeion gael ei wneud) roedden nhw'n credu y dylai cynrychiolwyr cyflogeion gael y cyfle i droi at y cyflogeion mewn ymgymeriadau eraill i benderfynu a fyddai awydd yn eu plith i sefydlu strwythur ar lefel y grwp.

14. Byddai rhai cyflogwyr a oedd o blaid egwyddor darparu ar gyfer ymgynghori ar lefel y grwp yn hoffi gweld bod y canllawiau'n datgan yn bendant y gallai cytundebau hysbysu ac ymgynghori, p'un a fydden nhw ar gael eisoes ynteu newydd gael eu negodi, weithredu ar lefel wahanol i lefel yr ymgymeriad. Dywedodd ymatebydd arall y dylai cytundeb, ar ôl cael ei sefydlu, gael ei ddiogelu rhag cais wedyn gan y cyflogeion yn un o'r ymgymeriadau a fyddai'n dod o dan y cytundeb.

15. Roedd rhai o'r undebau llafur yn cysylltu'r mater yma â mater "lefel reoli berthnasol" lle dylai'r ymgynghori gael ei gynnal. Os oes cwmni dal yn cymryd penderfyniad a fydd yn effeithio ar weithlu is-gwmni, roedden nhw'n dadlau y dylai fod gan gynrychiolwyr y cyflogeion yn yr is-gwmni hawl i ymgynghori yn uniongyrchol â'r penderfynwr, yn hytrach na bod o dan orfodaeth i ymgynghori'n anuniongyrchol drwy reolwyr yr is-gwmni. Hefyd, os yw penderfyniad gan gwmni dal yn effeithio ar y gweithlu mewn sawl is-gwmni, dylai'r Rheoliadau ddarparu mecanwaith i gynrychiolwyr cyflogeion o'r holl is-gwmnïau gael gwybodaeth ar y cyd a mynegi barn ar y cyd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y cwmni dal.

16. Cyflwynodd ymatebwyr eraill sylwadau ar effaith bosibl y ddeddfwriaeth ar yr ymgynghori sydd eisoes yn digwydd ar lefel o dan lefel yr ymgymeriad. Cafwyd cytundeb cyffredinol y dylai hysbysu ac ymgynghori gael eu cynnal ar y lefel lle mae'r penderfyniadau'n cael eu cymryd, beth bynnag fyddai'r strwythur cyfreithiol. Bydd hyn yn amrywio o sefydliad i sefydliad ond nid yw bob amser yn ymarferol trin yr ymgymeriad fel un corff a byddai'n fantais pe bai modd gwahanu rhannau penodol ymgymeriad er mwyn datblygu trefniadau hysbysu ac ymgynghori.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

17. Cytundebau sydd eisoes yn bodoli sy'n cynnwys mwy nag un ymgymeriad. Mae rheoliad 9 drafft wedi'i ychwanegu i ganiatáu i gyflogwr sydd â chytundeb sydd eisoes yn bodoli ar gyfer mwy nag un ymgymeriad gynnal <u>un</u> bleidlais ar draws yr holl ymgymeriadau hynny i gael gwybod a yw'r gweithlu'n cefnogi cais (neu geisiadau) gan gyflogeion mewn un neu ragor o'r ymgymeriadau sy'n dod o dan y cytundeb. Hefyd, pe na bai'r cais yn cael ei gefnogi gan y gweithlu yn y bleidlais, byddai'r moratoriwm 3- blynedd ar ragor o geisiadau gan y cyflogeion yn gymwys mewn perthynas â'r holl ymgymeriadau yn y cytundeb (Rheoliad 12 (1)(d) drafft). Pe bai'r cais yn cael ei gefnogi gan y gweithlu, byddai'r rhwymedigaeth i negodi cytundeb newydd yn gymwys i'r holl ymgymeriadau yn y cytundeb i'r grwp cyfan. Mae'r canllawiau drafft hefyd yn egluro (ym mharagraff 21) y byddai'r gofyniad yn rheoliad 8(1)(c) fod cytundeb sydd eisoes yn bodoli yn cael ei "gymeradwyo gan y cyflogeion" yn cynnwys cymeradwyaeth gan y cyflogeion ar draws y grwp cyfan, yn hytrach na chyflogeion ar wahân ym mhob un o'r ymgymeriadau o dan sylw.

18. Cytundebau wedi'u negodi sy'n cynnwys mwy nag un ymgymeriad. Mae rheoliad 14 drafft wedi'i ddiwygio i ganiatáu i gyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogeion negodi cytundeb ar gyfer mwy nag un ymgymeriad (paragraffau 5 a 6 newydd yn rheoliad 14). I wneud hyn, byddai'r cyflogwr yn rhoi hysbysiad cyflogwr mewn perthynas â phob un o'r ymgymeriadau o dan sylw, ac yn trefnu ar gyfer penodi neu ethol

cynrychiolwyr negodi o blith yr ymgymeriadau hynny. Rhaid i'r cytundeb gynnwys yr holl gyflogeion yn yr ymgymeriadau o dan sylw. Gallai'r cytundeb gael ei gymeradwyo gan yr holl gynrychiolwyr negodi, neu gan fwyafrif ohonyn nhw a mwyafrif o'r gweithlu a fyddai'n dod o dan y cytundeb (rheoliad 16(2)).

19. Cytundebau aml-sefydliad: mae'r canllawiau drafft yn egluro (ym mharagraff 21) nad yw'r Rheoliadau yn mynnu bod hysbysu ac ymgynghori o dan gytundeb sydd eisoes yn bodoli neu gytundeb sydd newydd ei negodi yn cael eu gwneud ar lefel yr ymgymeriad. Mae gan y cyflogwyr a'r cyflogeion y rhyddid i gytuno ar drefniadau sy'n addas at strwythur y sefydliad penodol. Gallai hyn olygu cael trefniadau gwahanol mewn sefydliadau gwahanol, adrannau sefydliad, unedau busnes, neu ymdrin â rhannau gwahanol o'r gweithlu. Yn achos cytundebau sydd eisoes yn bodoli, gallai'r trefniadau hyn fod wedi'u creu ar wahân ac ar wahanol adegau, a'u cymeradwyo ar wahân ac ar wahanol adegau, gan gynnwys cydgytundebau ag undebau sy'n ymdrin â rhannau o'r gweithlu, a darparu ar gyfer trefniadau hysbysu ac ymgynghori gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r ymgymeriad. Y pwynt allweddol yw bod yr holl gyflogeion yn yr ymgymeriad cyfan, naill ai ar eu pen eu hunain, neu o'u cymryd gyda'i gilydd gyda chytundebau dilys sydd eisoes yn bodoli, yn dod o dan ryw drefniadau, a bod pob cytundeb yn bodloni gofynion eraill rheoliad 8(1) drafft. O ran cytundebau sydd newydd eu negodi, mae'r canllawiau unwaith eto'n egluro (ym mharagraff 32) y gellir cytuno ar drefniadau gwahanol ar gyfer sefydliadau gwahanol etc, ac y gellir negodi ynghylch y trefniadau hynny ar wahân.

Y berthynas â'r gofynion statudol presennol ar hysbysu ac ymgynghori

20. Gofynnodd y mwyafrif o'r ymatebwyr am eglurhad ar sut y gallai'r gofynion ar ymgynghori yn y Rheoliadau hysbysu ac ymgynghori a'r ddeddfwriaeth ar afreidedd gorfodol a throsglwyddiadau busnes (TUPE) weithio gyda'i gilydd a pha ddeddfwriaeth a ddylai gael y 'flaenoriaeth'. Roedd eraill am gael gwybod a fyddai'n bosibl crynhoi'r ddeddfwriaeth wahanol ar ryw adeg yn y dyfodol.

21. Credai un o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw y dylai'r corff hysbysu ac ymgynghori gefnogi perthnasoedd bob dydd ac nid cael ei weld fel rhan o reoli argyfwng. Gan hynny, dylai gael ei gadw ar wahân i ymgynghori ar afreidedd gorfodol a TUPE. Ar y llaw arall, credai un o'r undebau mwyaf y dylai'r Llywodraeth hybu ymgynghori sy'n cael ei gynnal ynghylch amrediad eang o faterion a hynny cyn gynted â phosibl ac na fyddai'n gywir gwahanu ymgynghori ynghylch afreidedd cyfun.

22. Mynegodd rhai cyflogwyr y pryder nad oedden nhw am orfod ymgynghori ar yr un mater â sawl grwp. Mewn rhai achosion, gallai fod

yn briodol ymgynghori â'r grwp hysbysu ac ymgynghori, mewn eraill byddai angen ymgynghori â grwpiau mwy lleol, yn gyson â'r ddeddfwriaeth bresennol. Roedd peth anesmwythyd ar y ffaith y gallai fod rhaid ymgynghori â'r ddau gorff gwahanol yr un pryd, er nad oedd rhai o'r cyflogwyr yn gweld anhawster mawr gyda hyn. Roedd y posibilrwydd o gael dau gwyn yr un pryd o dan ddau ddarn o ddeddfwriaeth hefyd yn peri pryder i'r cyflogwyr.

Ymateb y Llywodraeth

23. Mae'r Rheoliadau hysbysu ac ymgynghori wedi'u diwygio er mwyn i gyflogwyr, lle maen nhw'n dod o dan y darpariaethau "safonol" ar hysbysu ac ymgynghori, a hefyd o dan rwymedigaeth o dan y ddeddfwriaeth ar afreidedd cyfun neu drosglwyddo (TUPE), gael eu gollwng yn rhydd o'r rhwymedigaeth i hysbysu ac ymgynghori o dan y rheoliadau hysbysu ac ymgynghori (gweler rheoliad 20(5) drafft). Y cyfan y mae'n rhaid i'r cyflogwyr ei wneud yw hysbysu'r cynrychiolwyr hysbysu ac ymgynghori mewn ysgrifen y byddan nhw'n ymgynghori o dan y ddeddfwriaeth ar afreidedd cyfun neu drosglwyddo busnes. Effaith hyn yw mai dim ond ag un corff ymgynghori ar y tro y byddai angen ymgynghori ar afreidedd cyfun neu drosglwyddo TUPE.

24. O ran cytundebau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd eu negodi, mae'r canllawiau drafft yn awgrymu y gallai cyflogwyr a chyflogeion fod am wneud darpariaeth i osgoi gofynion sy'n gorgyffwrdd â'r rhwymedigaethau statudol presennol, naill ai drwy eu hepgor yn bendant o'r cytundeb , neu drwy arddel ymagwedd debyg i'r un a ganiateir o dan y darpariaethau safonol.

Y berthynas â chydgytundebau ag undebau

25. Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol bod gorgyffwrdd yn bosibl rhwng y rhwymedigaethau sy'n cael eu creu o dan y rheoliadau hysbysu ac ymgynghori a'r rhai mewn cydgytundebau sydd eisoes yn bodoli ag undebau llafur. Er hynny, y prif bwynt a wnaed oedd bod cydgytundebau, yn wahanol i gytundebau hysbysu ac ymgynghori, yn gymwys i "uned fargeinio" ac nad ydyn nhw fel rheol yn cynnwys yr holl gyflogeion o fewn yr ymgymeriad, sef un o'r gofynion yn y Rheoliadau ar gyfer cytundeb sydd eisoes yn bodoli.

26. Er hynny, y farn gyffredinol oedd na ddylai'r cydadwaith rhwng cydgytundeb a chytundeb hysbysu ac ymgynghori fod yn ormod o broblem ran amlaf ac y dylai fod modd i'r cyflogwr weithio gyda'r priod gyrff i bennu sut y byddai'r trefniadau'n cydadweithio yn ymarferol. Cytunodd un o gyrff yr undebau llafur hefyd na ddylai'r cydadweithio yma fod yn broblem ran amlaf a bod llawer o ymgymeriadau eisoes yn

gweithredu systemau deuol ar gyfer gwahanol rannau o'r gweithlu. Gallai hyn olygu y byddai angen i gydgytundebau sydd eisoes yn bodoli gael eu diwygio er mwyn cymryd i ystyriaeth y cyflogeion hynny y tu allan i gwmpas yr uned fargeinio, neu y gallai trefniadau atodol gael eu gwneud ar eu cyfer.

27. Credai sawl un o'r ymatebwyr na ddylai'r Llywodraeth geisio gwneud darpariaethau arbennig ar gyfer cydgytundebau nac undebau llafur yn y ddeddfwriaeth. Roedd gan eraill farn wahanol, gan ddymuno ei gwneud yn haws i gydgytundebau gael eu trin fel cytundebau sydd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, dadleuai rhai undebau llafur y dylid cael rhagdybiaeth awtomatig bod cymeradwyaeth i gytundeb o du cynrychiolwyr undeb llafur cydnabyddedig yn ddigon i ddangos cymeradwyaeth y gweithlu.

28. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr y bydden nhw'n croesawu eglurhad yn y canllawiau ar y gwahaniaeth rhwng cydfargeinio ac ymgynghori. Ceir peth pryder y bydd y gwahaniaeth rhwng y ddau'n cael ei gymylu am fod rhaid i rywfaint o ymgynghori gael ei gynnal "gyda golwg ar gyrraedd cytundeb".

29. Hyd yn oed lle mae cytundeb dilys mewn bodolaeth eisoes (gan gynnwys cydgytundeb ag undeb), roedd rhai undebau'n pryderu bod cyflogwyr yn rhydd i negodi cytundeb newydd, naill ai drwy beidio â chynnal pleidlais ymhlith y gweithlu o dan reoliad 8 i ategu cais gan gyflogeion, neu drwy fynd ati i negodi eu hunain.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

30. Mae'r Llywodraeth yn rhannu'r farn gyffredinol nad oes angen gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer cydgytundebau nac ar gyfer cynrychiolwyr undebau llafur o dan y ddeddfwriaeth ar hysbysu ac ymgynghori. Ran amlaf, mae'n ymddangos bod llawer o gytundebau cydfargeinio ar gael yn barod sy'n cynnwys rhan o'r gweithlu a threfniadau eraill sy'n cynnwys y gweddill, weithiau fel systemau deuol, weithio wedi'u cydblethu. Does dim rheswm pam na ddylai hyn barhau yn wir ar ôl i'r ddeddfwriaeth ar hysbysu ac ymgynghori gael ei chyflwyno.

31. I egluro y gall cydgytundeb ag undeb llafur fod yn gytundeb dilys sydd eisoes yn bodoli at ddibenion rheoliad 8, mae'r diffiniad o gytundeb sydd eisoes yn bodoli (yn rheoliad 2) wedi'i ddiwygio i ddatgan y gall y cytundeb fod yn un gyda chyflogeion <u>neu eu cynrychiolwyr</u>. Mae'r canllawiau drafft yn egluro (ym mharagraff 17) y gall cydgytundeb fod yn gytundeb dilys sydd eisoes yn bodoli, os yw'n bodloni'r meini prawf yn rheoliad 8 (1)(a), ac nad oes ots am y ffaith nad yw efallai yn cynnwys yr holl gyflogeion yn yr ymgymeriad, os yw'r cyflogeion eraill yn dod o dan un neu fwy o gytundebau dilys sydd

eisoes yn bodoli. Mae'r canllawiau hefyd yn egluro (ym mharagraff 17) y gall cytundeb sydd eisoes yn bodoli gael ei gytuno gan gynrychiolwyr y cyflogeion, gan gynnwys cynrychiolwyr undebau llafur.

32. Mae eglurhad ar y gwahaniaeth rhwng cydfargeinio ac ymgynghori gyda golwg ar gyrraedd cytundeb yn cael ei roi ym mharagraff 45 o'r canllawiau drafft.

33. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryder a fynegwyd ym mharagraff 29 uchod am allu cyflogwr i sefydlu mecanwaith amgen hyd yn oed os oes yna drefniadau eisoes sydd ym marn rhai cyflogeion neu undebau yn gweithio'n dda. Er hynny, o gofio nad oes dim yn y gyfraith i atal hyn rhag digwydd ar hyn o bryd, nid yw'r Llywodraeth yn credu y dylai'r ddeddfwriaeth hysbysu ac ymgynghori fynd ati'n unswydd i geisio dileu'r posibilrwydd yma. Serch hynny, mae'r canllawiau drafft yn egluro (ym mharagraff 19) na fyddai dim effaith gyfreithiol ar gydgytundeb pe bai'r gweithlu'n ategu cais gan gyflogai am negodi cytundeb newydd ar hysbysu ac ymgynghori, ac yn benodol na fyddai hyn yn effeithio ar gydfargeinio ynghylch tâl, er enghraifft.

Materion eraill

34. Yn ogystal ag ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori y llynedd, cafodd nifer o bwyntiau eraill eu codi neu eu crybwyll ac y mae'r Llywodraeth wedi ymateb iddyn nhw drwy addasu'r rheoliadau drafft. Mae'r prif newidiadau wedi'u nodi isod.

Cyfyngiad amser ar geisiadau cyflogeion. **Pe bai ceisiadau gan gyflogeion yn gallu cael eu hagregu i gyrraedd y trothwy o 10%, nododd rhai o'r ymatebwyr y gallai fod angen i gyflogwyr eu cadw yn barhaol. Mae rheoliad 7(2) wedi'i ddiwygio fel mai dim ond am 6 mis y bydd cais yn ddilys os yw'n brin o'r trothwy o 10%.**

Dechrau negodi. **Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod y cyfnod o fis cyn dechrau negodi ar ôl cais gan gyflogeion neu hysbysiad gan y cyflogwr yn rhy fyr. Dylid rhoi mwy o amser i ethol neu i benodi cynrychiolwyr negodi ac i baratoi ar gyfer y negodi. Gan hynny, mae'r amser wedi'i gynyddu i dri mis (rheoliad 14(3)).**

Pleidlais ategu**. Nododd nifer o'r ymatebwyr fod ar y bleidlais i ategu cais cyflogeion os oes cytundeb mewn bodolaeth eisoes angen 40% o'r gweithlu i'w hategu, er y gall 60% ei gwrthod. Gan hynny, mae'r bleidlais bellach yn gorfod sicrhau mwyafrif o'r rhai sy'n pleidleisio, yn ogystal â 40% o'r cyflogeion yn yr ymgymeriad.**

Cytundebau sydd eisoes yn bodoli**. Nodwyd y gall cytundeb Cyngor Gwaith Ewropeaidd fodloni'r gofynion ar gyfer cytundeb sydd eisoes yn**

bodoli yn rheoliad 8. Erbyn hyn, nid yw'r diffiniad yn rheoliad 2 yn cynnwys cytundebau Cynghorau Gwaith Ewropeaidd.

***Ceisiadau dienw gan gyflogeion*. Byddai'r ddarpariaeth yn rheoliad 7 sy'n caniatáu i geisiadau dienw gan gyflogeion gael eu gwneud yn uniongyrchol i Berson Cymwys Annibynnol wedi bod yn eithriadol o anodd i'w roi ar waith, o gofio y gallai ceisiadau gwahanol gael eu gwneud gan rannau gwahanol o'r gweithlu dros gyfnod o amser. Oherwydd hynny, mae'r dewis yma wedi'i ddileu, a byddai pob cais dienw'n cael ei anfon i ddechrau at y CAC, a gaiff ddewis rhoi'r dasg allan i un o'r Personau Cymwys Annibynnol. Hefyd, bydd rôl y CAC mewn trafod ceisiadau dienw bellach yn rôl weinyddol yn unig – fydd dim gofyn iddo benderfynu yn y cyfnod yma a yw'r cais yn ddilys neu beidio (er y byddai'n dal yn bosibl i her i ddilysrwydd cais gael ei wneud wedyn i'r CAC).**

***Cwynion*. Mewn fersiwn blaenorol o'r Rheoliadau drafft, ni allai rhai cwynion gael eu gwneud ond gan gyflogeion unigol lle nad oedd cynrychiolwyr cyflogeion ar gael. Mae hyn wedi'i newid wedyn, gan y gallai fod rhesymau dilys pam nad yw cynrychiolydd am wneud cwyn.**

***Cynrychiolwyr negodi*. Mae darpariaeth wedi'i hychwanegu (rheoliad 15) i ganiatáu i gyflogeion herio'r cynrychiolwyr negodi, o herwydd eu swyddogaeth holl-bwysig yn y broses.**

***Methiant gan y cyflogwr i ymateb i gais gan gyflogeion*. Mae darpariaeth wedi'i hychwanegu i gymhwyso'r rheolau safonol ar ôl 6 mis (rheoliad 18(1). Fel yr oedden nhw o'r blaen, byddai'r Rheoliadau wedi caniatáu i gyflogwr a oedd wedi methu ag ymateb i gais o gwbl osgoi unrhyw ofynion ynghylch ymgynghori am hyd at 15 mis, a chredid bod hynny'n rhy hir**

***Cynrychiolwyr hysbysu ac ymgynghori*. Os yw'r darpariaethau safonol yn gymwys, mae'n rhaid penodi o leiaf 2 gynrychiolydd (rheoliad 19(2)), ac mae darpariaeth sy'n caniatáu i gyflogwr osgoi cost pleidlais wedi'i hychwanegu os nad oes digon o ymgeiswyr ar gyfer etholiad (Atodlen 2, paragraff 2(a)(ii)).**

***Gorfodi.* Yng ngoleuni'r ymatebion, mae nifer o ddiwygiadau wedi'u gwneud (1) Mae'r cyfyngiad ar effaith gorchmynion y CAC yn egluro bod gweithredoedd neu gytundebau sydd <u>yn yr arfaeth</u> wedi'u cynnwys, fel nad oes modd sicrhau ymwared gwaharddol, rhywbeth y mae'r Llywodraeth bob amser wedi dweud nad oedd yn bwriadu ei ganiatáu (rheoliad 22(9)). (2) Mae darpariaeth "rhwymedi unigol" wedi'i hychwanegu fel yr hyn sydd mewn deddfwriaeth arall, fel na fyddai cytundeb gwirfoddol yn gallu cael ei orfodi drwy'r llysoedd oni bai bod cyflogwr yn cytuno (rheoliad 24); (3) Be llach bydd gorchmynion y CAC yn gallu cael eu gorfodi drwy'r llysoedd yn unig, ac nid drwy'r**

Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth hefyd (rheoliad 37(3)). (4) Mae cyfyngiad amser o 3 mis ar gyfer cwyno o dan gytundeb wedi'i negodi neu'r rheolau safonol wedi'i ychwanegu (rheoliad 22(2)). (5) Mae'r posibilrwydd y gallai cwyn gael ei wneud yn erbyn cynrychiolydd hysbysu ac ymgynghori neu gyflogai arall wedi'i ddileu, er y gallai mesurau barhau i gael eu cymryd yn erbyn unrhyw un a fyddai'n torri cyfyngiad cyfrinachedd (rheoliad 22(3) a 25(3)).

Cyfyngiad cyfrinachedd. **Mae'r prawf yn rheoliad 25 sydd i'w ddefnyddio gan y CAC wrth ddatrys anghydfodau am gyfyngiad cyfrinachedd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu geiriad Erthygl 6.1 o'r Gyfarwyddeb hysbysu ac ymgynghori ac i wahaniaethu rhyngddo a'r prawf yn rheoliad 26 ar gyfer dal gwybodaeth gyfrinachol yn ôl (rheoliad 25(7)).**

Esemptiad llongau masnachol. **Mae darpariaeth sy'n cyfateb i'r hyn a geir yn y ddeddfwriaeth ar Gynghorau Gwaith Ewropeaidd wedi'i hychwanegu (rheoliad 41).**

Dod i rym. **Mae'r dyddiad y daw'r rheoliadau i rym a'r dyddiadau trosiannol yn Atodlen 1 wedi'u gohirio ychydig ddyddiau i 6 Ebrill yng ngoleuni'r ymrwymiad i ddod â deddfwriaeth newydd ar gyflogaeth i rym ar ddau ddiwrnod yn ystod y flwyddyn os oes modd.**

Diwygiadau eraill. **Mae amryw byd o newidiadau eraill i'r Rheoliadau drafft wedi'u gwneud, i'w hegluro ac i'w gwneud yn fwy cyson yn fewnol.**

Cymhwyso at y sector cyhoeddus

35. Soniodd rhai o'r ymatebwyr am yr adran yn y ddogfen ar *Weithleoedd Uchel eu Perfformiad* a gyhoeddwyd yn 2003, a gyfeiriodd at ystyr y term "ymgymeriad", a chymhwyso'r ddeddfwriaeth at y sector cyhoeddus. Credai un ymatebydd na ddylid dibynnu ormod ar gyfraith achosion TUPE a na fyddai sefydliad sy'n ymgymeriad at ddibenion TUPE o reidrwydd yn ymgymeriad at ddibenion y ddeddfwriaeth ar hysbysu ac ymgynghori. Credai ymatebwyr eraill fod dyfarniad *Henke* yn bur gul ac na ddylid cymryd ei fod yn awgrymu na fyddai llawer o adrannau'r Gwasanaeth Sifil yn cael eu dosbarthu fel ymgymeriadau. Roedd rhai o'r awdurdodau lleol a ymatebodd yn credu y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o ganllawiau ar y mater yma, o gofio'r ansicrwydd a geir ynghylch a fyddai awdurdodau lleol yn ymgymeriadau at ddibenion y ddeddfwriaeth yma.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

36. Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd y gyfraith achosion perthnasol a gaiff ei datblygu yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Hawliau Caffaeledig

a'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi honno ar waith, sef Rheoliadau TUPE, yn helpu i ddeall ystyr y term "ymgymeriad" yn y ddeddfwriaeth ar hysbysu ac ymgynghori, o gofio'r diffiniadau tebyg iawn. Mae'r canllawiau drafft yn ceisio bwrw rhagor o oleuni ar y pwnc, ond maen nhw'n cydnabod bod angen rhagor o gyfraith achosion i egluro'r sefyllfa.

37. Serch hynny, mae'r Llywodraeth yn llwyr o blaid yr egwyddor bod gan gyflogeion yr hawl i gael eu hysbysu ac ymgynghori â nhw ynghylch materion pwysig sy'n effeithio arnyn nhw, p'un a ydyn nhw'n gweithio yn yr hyn sydd wedi'i ddiffinio yn ôl y gyfraith fel "ymgymeriad" neu beidio. Bydd Swyddfa'r Cabinet, drwy ymgynghori ag adrannau eraill o'r Llywodraeth a Chyngor Undebau'r Gwasanaeth Sifil, wrthi felly yn datblygu cod ymarfer a fydd yn cymhwyso egwyddorion y ddeddfwriaeth ar hysbysu ac ymgynghori at adrannau'r Llywodraeth ganolog nad ydyn nhw'n ymgymeriadau. Ni fyddai'r awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys yn ffurfiol gan y cod ymarfer, ond fe fyddai disgwyl iddyn nhw gadw at egwyddorion y cod.